Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaethau achos

# Tai Tarian – Gweithio er dyfodol cynaliadwy

Yn 2018, penderfynodd Tai Tarian ymuno â'r fenter Caru Gwenyn yng Nghymru. Tai Tarian yw un o'r darparwyr tai cymdeithasol mwyaf yng Nghymru, ac mae ganddynt dros 9000 eiddo yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn rheoli dros 450 erw.

Yn 2016 aethant ati i osod cychod gwenyn yn eu prif swyddfa ym Maglan, a hyfforddwyd aelod o staff i fod yn wenynwr ar gyfer y gweithle. Wedi hyn, dechreuodd y sefydliad gysylltu â phlant ysgol lleol er mwyn eu haddysgu am bwysigrwydd gwenyn.

Bu'r prentisiaid a gyflogir ganddynt fel rhan o'r rhaglen Copper Foundation yn gweithio gyda'r plant. Gyda'u cymorth, bu'r plant yn dylunio a chreu gwestai i bryfed a thrychfilod i'w gosod ym Maglan.

Mae Tai Tarian wedi cydweithio â Buglife Cymru i greu cynefinoedd blodau gwyllt a choetiroedd cymunedol ar gyfer pryfed peillio, gan ddilyn 'B-lines' (**www.buglife.org.uk**) arbennig. Maent o'r farn fod y cysylltiadau y maent wedi'u meithrin ag ysgolion a chymunedau lleol yn allweddol i lwyddiant eu prosiectau. O weithio ar y cyd, ychwanegwyd gwerth a balchder i'r prosiectau, ac mae ansawdd mannau gwyrdd a bioamrywiaeth y fwrdeistref wedi'u gwella o'r herwydd.





---

# Gwella ein Cynlluniau Haven Housing

## (byw'n annibynnol i rai dros 55 oed)

I gychwyn, rhoddwyd gwahoddiad i denantiaid Haven Housing i fynychu boreau coffi. Yn ystod y rhain, eglurodd Clare Dinham (Buglife Cymru) beth yw'r prosiect B-Line a pham fod angen mynd ati i blannu blodau gwyllt. Anogodd tîm Tai Tarian i'r tenantiaid gyfrannu mewn ffyrdd a oedd yn gweddu iddyn nhw fel unigolion.

Gallai hyn olygu helpu i baratoi'r tir neu hau hadau. Pe bai symudedd yn broblem, gallai tenantiaid hyrwyddo'r prosiectau B-Line i ffrindiau a theuluoedd.

Mae tenantiaid sawl cynllun tai wedi cael budd o ddolydd blodau gwyllt, gan fwynhau eu lliwiau trwy'r tymhorau.



Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Croeserw, Port Talbot

Pentref gwledig yng Nghwm Afan yw Croeserw, ychydig y tu allan i'r coridor ‘B-Line’.

Gyda chyllid ychwanegol gan eu contractwyr ac mewn partneriaeth â thîm bioamrywiaeth CBS CPT, maent yn gweithio ar hyn o bryd i sefydlu (www.taitarian.co.uk) rhyngweithiol.

Bydd y llwybr ar ddarn mawr o dir yng nghalon y gymuned, tir nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol o'r blaen ac a oedd yn aml yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.





Bydd y prosiect hwn yn darparu cynefin i bryfed peillio ac yn rhoi cyfle newydd i'r gymuned a'r ysgol ei ddefnyddio fel gofod hamdden/addysgol.

Bu Tîm Grymuso Tenantiaid Tai Tarian yn ymgysylltu â'r Tîm Eco yn Ysgol Gynradd Croeserw er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r prosiect 'B-Line'. Cynhaliwyd gweithdy ar adeiladu ‘gwestai trychfilod’.

Bu’r tîm hefyd yn helpu'r disgyblion i ddylunio man awyr agored delfrydol a dangos iddynt sut y gellid gwireddu hynny.

---

# Cwmafan, Port Talbot

Pentref lled-wledig ym Mhort Talbot yw Cwmafan. Nododd Tai Tarian y byddai’r tir ger yr ardal chwarae plant yn lle diogel a hygyrch i blant a phobl ifanc ymgysylltu â natur.

Dechreuwyd y gwaith ar y cyd pan aeth Thîm Cymdogaeth Tai Tarian ati i baratoi'r tir.

Dilynwyd hyn gan wahoddiad i'r gymuned ddod i hau hadau blodau gwyllt.

Mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth mawr i edrychiad yr ardal, a’r trigolion lleol wir yn ymfalchïo yn eu cymuned.







Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Prosiectau Mannau Agored

Mae Tai Tarian yn canfod parseli tir nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon aml, neu lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredin. Maent yn annog aelodau'r gymuned leol i gynnig syniadau ar gyfer sut y gellir defnyddio'r tir, ac yna'n cydweithio â nhw i wireddu eu prosiectau.

---

## Coed ar gyfer Gwenyn, Cwmllynfell, Pontardawe

Mae Cwmllynfell yn bentref lled wledig yng Nghwm Tawe isaf, o fewn y coridor 'B-Line'. Mae preswylydd lleol wedi gofyn am brydles hirdymor ar gyfer sawl llain o dir er mwyn datblygu prosiect 'coed ar gyfer gwenyn'.

Nod y prosiect perllan gymunedol hwn yw darparu gweithgareddau a chyfleoedd gwirfoddoli, i roi neithdar i bryfed peillio, ac i greu cynnyrch i'w mwynhau.

---

## Glyncorrwg, Port Talbot

Pentref bychan gwledig yng Nghwm Afan o fewn y coridor B-Line yw Glyncorrwg. Mae'r cynghorydd cymuned wedi gofyn am brydles hir ar ddarn o dir er mwyn plannu blodau gwyllt, i sefydlu gardd gymunedol, ac ar gyfer mentrau cymunedol eraill.

---

## Gardd Gymunedol Creunant, Castell-nedd

Pentref bychan yng Nghwm Nedd yw'r Creunant, sydd hefyd o fewn y coridor B-Line.

Cysylltodd Men's Shed y Creunant â Thai Tarian i holi am barsel o dir i'w droi'n berllan gymunedol ar gyfer trigolion lleol.

Ymunodd plant ysgol lleol â nhw i blannu'r coed ac er mwyn cynllunio sut i ddefnyddio'r ardal fel adnodd dysgu yn yr awyr agored. Cyflenwyd y coed gan gontractwyr lleol.



Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gardd Goed Nant Hir, Glyn-nedd

Mae Gardd Goed Nant Hir wedi bod yn brosiect ar y cyd rhwng Tîm Cymdogaeth Tai Tarian a dwy ysgol leol, sef Ysgol Gynradd Cwmnedd ac Ysgol Gymraeg Cwmnedd.

Aeth y Tîm Cymdogaeth ati i dorri rhai o'r coed er mwyn agor canopi'r coetir. Gadawodd hynny i ragor o olau naturiol gyrraedd y llawr, gan annog ailsefydliad y blodau gwyllt naturiol.

Bu'r plant yn helpu i adeiladu 'gwestai' i drychfilod, yn clirio'r ardal, yn plannu blodau gwyllt, ac yn dysgu am bwysigrwydd denu pryfed peillio.

Maent yn edrych ymlaen yn arw at gael defnyddio'r ardd goed i ddysgu yn yr awyr agored. Byddant yn gwneud ac yn gosod posteri er mwyn annog eraill i fwynhau'r ardal hefyd.

## Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Dros y blynyddoedd nesaf, mae Tai Tarian wedi ymrwymo i wella'r gofod gwyrdd o fewn ein cymunedau lleol. Byddant yn creu mwy o goetiroedd cymunedol, yn gwella mannau agored trwy blannu blodau gwyllt, ac yn annog pobl leol i ymuno yn y gwaith.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40090